

Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 1



- Faint + o + treigladd meddal + enw lluosog.
- Sawl + enw unigol.

Rhowch 'Sawl' neu 'Faint o' yn y bylchau. Treiglwch os oes angen.

1. ____ plentyn newydd fydd yn dechrau yn yr ysgol yfory?
2. ____ chwaraewyr sydd wedi eu gwahardd erbyn hyn?
3. ____ gwersi sy ganddyn nhw bob dydd?
4. ____ daeargryn sy wedi digwydd eleni?
5. ____ milwyr oedd yn ymladd yn yr ail ryfel byd?
6. ____ triongl glas oedd yn y patrwm?
7. ____ teisennau wnaiff hi heno?
8. ____ tudalen sy rhaid i ni ddarllen heno?
9. ____ trefi glan y môr fyddi di'n eu trafod yn y project?
10. ____ cynddisgyblion welaist ti yn yr aduniad?



Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 2



- Mae llawer o eiriau yn y Gymraeg am 'yes' a 'no', ond rhaid dewis y gair cywir bob tro.

Rhowch air cyntaf yr ateb cadarnhaol a negyddol yn y grid isod.

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
1. Oes gwers hanes heddiw?	Oes	Nac oes
2. Aethon nhw i'r gig?		
3. Fydd hi'n canu ar ei phen ei hun?		
4. Oedd rhywun yn hwyr y bore ma?		
5. Ym Mangor mae o'n byw rŵan?		
6. Wyt ti'n cystadlu eleni?		
7. Fydda i'n cael ffrae os bydda i'n hwyr?		
8. Yr athrawes gelf yw'r pennaeth newydd?		
9. Gawn ni fynd i'r sioe gerdd yr wythnos nesa?		
10. Ydy'r car newydd yn cyrraedd heno?		

Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 3



- Mae treiglâd yn dilyn llawer o eiriau cwestiwn e.e. Pa lyfrau? Beth wnaeth o?

Mae gwallau treiglo mewn pump o'r cwestiynau isod. Gwnewch restr o'r cwestiynau sy'n gywir. Yna, cywirwch y pum cwestiwn sy'n anghywir.

1. Beth fyddwch chi'n adeiladu ar y tir?
2. Pwy ddaeth â ffôn symudol i'r ysgol heddiw?
3. Pa fwyd maen nhw'n ei werthu yn y siop newydd?
4. Pa tystiolaeth oedd gan yr heddlu?
5. Pwy gwelodd y lleidr yn torri i mewn i'r tŷ?
6. Sut teulu sy wedi symud i'r hen dŷ?
7. Sut teithion nhw i Lundain?
8. Pryd weloch chi'r ffilm newydd?
9. Faint dywedodd hi wrthoch chi am y ddamwain?
10. P'un o'r dynion helpodd?

